



Teithio'n Rhatach ar Fysiau Lleol yng Nghymru

Categoriâu o Bobl Anabl

Eglurhad o ofynion prawf cymhwyster i bobl anabl a chyd-deithwyr.

Rhaid i bob ymgeisydd ddangos prawf eu bod yn gymwys a bod ganddynt gyfeiriad parhaol.

Os byddwch yn gwneud cais am gerdyn teithio rhatach, chi sy'n gyfrifol am brofi bod gennych hawl i gael cerdyn, a hynny drwy ddangos y dogfennau isod.

Mae gennych hawl "awtomatig" (h.y. ni fydd angen asesiad ychwanegol) os ydych yn cael un o'r budd-daliadau gwladol a ganlyn:-

- Cyfradd Uwch Eifen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (HRMCDLA), neu
- Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel (WPMS), neu
- Dyfarniad o dan tariffau 1-8 o Gynllun Iawndal Cyn Filwyr y Rhyfel (AFCS), neu
- Taliad Annibyniaeth Bersonol ar ôl sgorio wyth pwynt neu ragor yn yr adran "Symud o le i le".

Dall neu Rannol Ddall

Dall – yn golygu'ch bod wedi colli'r rhan fwyaf o'ch golwg (h.y. gallu gweld llawer llai na'r hyn sy'n arferol neu'n gallu gweld dim).

Rhannol ddall – colli golwg ar raddfa llai difrifol. Gall bobl rannol ddall weld mwy na rhywun sy'n ddall, ond llai na rhywun sy'n gweld yn iawn.

Gall unigolion fod wedi cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall â'u Cyngor Lleol. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i ophthalmolegydd (arbenigwr llygaid) lenwi ffurflen a'i chyflwyno i Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr unigolyn dall neu rannol ddall. Mae cofrestru'n wirfoddol.

Er mwyn cymhwyso am docyn bws am ddim, rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth ar bapur eu bod wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall gyda'u Hadran Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol neu mae'n rhaid iddynt fod yn gymwys i gofrestru (ond wedi dewis peidio).

Prawf cymhwyster gofynnol:

UN o'r canlynol:

- Tystysgrif cofrestru (dall neu rannol ddall)
- Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVI) wedi'i llofnodi gan Ophthalmolegydd Ymgynghorol (arbenigwr llygaid)

- Llythyr gan feddyg teulu, Gweithiwr Cymdeithasol Arbenigol, Swyddog Adferiad, Ophthalmolegydd Ymgynghorol neu arbenigwr llygaid arall e.e. optometrydd

Cwbl fyddar neu fyddardod difrifol

Caiff clyw ei fesur mewn desibelau, dBHL (lefel clyw). Yn gyffredinol ystyrir bod pobl yn ddifrifol fyddar os yw'r lefel yn cyrraedd 70-95 dBHL, ac yn hollol fyddar os yw dros 95+ dBHL

Nid oes system gofrestru statudol i bobl fyddar, ond bydd nifer yn cofrestru'n wirfoddol gydag adran Gwasanaethau Cymdeithasol eu hawdurdod lleol. Mae'n syniad da holi'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ond sylwch nad oes rhaid cofrestru.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth ar bapur eu bod wedi cofrestru'n gwbl fyddar neu eu bod yn ddifrifol fyddar gyda'u Hadran Gwasanaethau Cymdeithasol lleol neu eu bod yn gymwys i gofrestru (ond wedi dewis peidio â gwneud hynny).

Prawf cymhwyster gofynnol:

- Llythyr gan feddyg teulu, Gweithiwr Cymdeithasol Arbenigol neu Arbenigwr Clustol.
- Adroddiad awdiolegol neu adroddiad gan arbenigwr y glust

Heb Lefaredd

Rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth ar bapur i ddangos na allant gyfathrebu ar lafar mewn unrhyw iaith neu na allant wneud cais sylfaenol ar lafar na gofyn cwestiynau penodol i ddeall cyfarwyddiadau'n well (e.e. "Ydi'r bws yn mynd i'r Stryd Fawr?")

Prawf cymhwyster gofynnol:

- Llythyr gan feddyg teulu, gweithiwr cymdeithasol, therapydd lleferydd neu arbenigwr meddygol arall e.e. adran clustiau, trwyn a gwddf.
- Gallai'r anabledd fod yn hunanamlwg

Anabledd neu Anaf

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ar bapur i ddangos fod ganddynt anabledd neu eu bod wedi dioddef o anaf sy'n cael effaith sylweddol neu hirdymor ar eu gallu i gerdded.

Prawf cymhwyster gofynnol:

UN o'r canlynol:

- Tystiolaeth ar bapur yn cadarnhau bod yr ymgeisydd yn derbyn Elfen Symudedd Cyfradd Uwch y Lwfans Byw i'r Anabl (LBA);
- Taliad Annibyniaeth Bersonol ar ôl sgorio wyth pwynt neu ragor yn yr adran "Symud o le i le".

- Tystiolaeth ar bapur i ddangos fod yr ymgeisydd yn derbyn Atodiad Symudedd Pensiynwr Rhyfel;
- Llythyr gan feddyg teulu, Therapydd Galwedigaethol neu Ymgynghorydd Meddygol Annibynnol yn cadarnhau fod gan yr ymgeisydd anabledd i raddau sy'n cyfateb â gofynion cymhwyso ar gyfer Elfen Symudedd Cyfradd Uwch yr LBA neu Daliad Annibyniaeth Bersonol ar ôl sgorio wyth pwynt neu ragor yn yr adran "Symud o le i le".

Os nad yw ymgeiswyr yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau uchod (fel enghreifftiau posibl) rhaid iddynt ddangos tystiolaeth feddygol i ategu'r honiad fod diffyg parhaol a sylweddol ar eu gallu i gerdded.

Dim breichiau neu fethiant hirdymor i ddefnyddio'r ddwy fraich

Rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth ar bapur i ddangos na allant ddefnyddio'u breichiau i gyflawni tasgau bob dydd.

Prawf cymhwyster gofynnol:

UN o'r canlynol:

- Mae'n bosibl y bydd yr anabledd yn hunanamlwg
- Llythyr gan feddyg teulu, therapydd galwedigaethol, cynorthwy-ydd anabledd, gweithiwr cymdeithasol neu arbenigwr meddygol arall.

Anabledd Dysgu

Rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth ar bapur sy'n profi bod ganddynt anabledd dysgu sy'n seiliedig ar ddatblygiad meddyliol ataliedig neu anghyflawn sy'n amharu'n sylweddol ar ddeallusrwydd a'r gallu i ymwneud ag eraill yn gymdeithasol.

Prawf cymhwyster gofynnol:

UN o'r canlynol:

- Tystiolaeth ar bapur i ddangos bod yr ymgeisydd yn byw mewn cartref preswyl sydd wedi'i gofrestru ar gyfer pobl ag anableddau dysgu (wedi'i drefnu gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint)
- Tystiolaeth ar bapur i ddangos bod yr ymgeisydd yn byw mewn prosiect Byw yn y Gymuned gyda chymorth a drefnwyd gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint;
- Tystiolaeth ar bapur i ddangos bod yr ymgeisydd yn derbyn arian gan y Gronfa Byw'n Annibynnol (CBA);
- Tystiolaeth ar bapur i ddangos bod yr ymgeisydd wedi cofrestru â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhywun ag anabledd dysgu neu sy'n gymwys i gofrestru fel rhywun ag anabledd dysgu os nad yw wedi gwneud hynny e.e llythyr gan Weithiwr Cymdeithasol, Nyrs Gymunedol Arbenigol neu Ymgynghorydd Meddygol Annibynnol.

Methu gyrru oherwydd rhesymau meddygol

Rhaid i ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ar bapur i ddangos y byddent, pe baent yn gwneud cais am drwydded i yrru cerbyd dan Ran III o Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988, yn cael eu gwrthod yn unol ag adran 92 o'r Ddeddf (ffitrwydd corfforol) yn hytrach nag ar sail camddefnyddio alcohol a chyffuriau'n barhaus.

Dan Adran 92 o Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988, gellir gwrthod cais am drwydded yrru ar sail ffitrwydd meddygol yr ymgeisydd. Y rhai sy'n cael eu gwahardd rhag cael trwydded ar hyn o bryd yw pobl ag:

- Epilepsi (oni bai ei fod yn fath nad yw'n beryglus – gweler isod).
- Anhwylder meddyliol difrifol.
- Tuedd i gael pyliau sydyn o benysgafnder neu lewyg (o ganlyniad i anhwylder cardiaidd neu fel arall).
- Methu darllen plat cofrestru mewn golau da o bellter o 20.5 metr (wrth wisgo lensys os ydynt yn eu gwisgo).
- Anableddau eraill sy'n debygol o achosi i gerbydau a yrrir ganddynt fod yn beryglus i'r cyhoedd.

Nid yw'n amod o dan y categori hwn fod yn rhaid i'r ymgeisydd wneud cais am drwydded yrru a chael ei wrthod (byddai hynny'n feichus i bawb).

Nid yw'r rhai ys'n camddenfyddio alcohol a chyffuriau wedi'u cynnwys yn y diffiniad o "berosn anabl" o dan y Ddeddf ac felly ni allant hawlio cerdyn teithio rhatach.

I bobl ag unrhyw un o'r anableddau a restrir uchod, rhaid i'r Cyngor fod yn hyderus y byddai trwydded yn cael ei gwrthod a dylai felly allu rhoi cerdyn teithio fel mater o drefn. Yn achos epliepsi, ni chaiff pobl eu gwahardd yn awtomatig; mae'n dibynnu at yr amgylchiadau.

Prawf cymhwyster gofynnol:

UN o'r canlynol:

- Tystiolaeth ar bapur yn cadarnhau fod yr ymgeisydd yn derbyn Elfen Symudedd Cyfradd Uwch y Lwfans Byw i'r Anabl (LBA)
- Dyfarniad Tâl Annibyniaeth Bersonol ar ôl sgorio wyth pwynt neu ragor ar yr adran "Symud o le i le"
- Dogfennau'n dangos bod yr ymgeisydd yn cael Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel;
- Tystiolaeth ar bapur i ddangos fod cais yr ymgeisydd am drwydded yrru wedi cael ei wrthod neu mae'r drwydded wedi cael ei diddymu oherwydd ffitrwydd meddygol yr ymgeisydd. (ac eithrio ar sail camddefnyddio alcohol neu gyffuriau'n fynych).
- Llythyr gan feddyg teulu neu arbenigwr meddygol arall yn cadarnhau y byddai'r ymgeisydd, pe bai ef/hi yn gwneud cais am drwydded i yrru cerbyd dan Ran III Deddf Traffig y Ffyrdd 1988, yn cael ei wrthod yn unol ag adran 92 y Ddeddf (ffitrwydd corfforol), oni bai ar sail camddefnyddio alcohol neu gyffuriau'n barhaus.

Y rhai sy'n cyd-deithio â phobl anabl

Gall person ag anabledd difrifol wneud cais am gerdyn cydymaith er mwyn cael cymorth am ddim pan fydd yn teithio. Yn amodol ar dystiolaeth feddygol, mae'n bosibl y bydd y cerdyn ar gael i bobl sydd â'r canlynol:

- Anawsterau dysgu difrifol.
- Ymddygiad anodd – angen goruchwyliaeth bob amser.
- Nam gwybyddol a meddyliol difrifol (gan gynnwys pobl heb ymwybyddiaeth o berygl)
- Cyfuniad o nam gweledol a nam ar y clyw sy'n ei rwystro rhag symud yn annibynnol, neu
- Yr angen i ddefnyddio cadair olwyn.

Sylwch nad oes raid i effaith yr anabledd fod yn ddigon drwg i'r sawl sydd â cherdyn orfod cael help ar bob siwrnai.

Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn dosbarthu dau fath o gerdyn bws i deithio am ddim. Bydd y cyntaf ar gyfer pobl anabl sy'n ateb y meini prawf cyffredinol (uchod) a phobl 60 oed neu hŷn.

Bydd yr ail ar gyfer pobl anabl sy'n ateb y meini prawf cyffredinol ac sydd ag anabledd mor ddifrifol mae'n amhosibl iddynt ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus heb gymorth cyd-deithiwr (nid oes raid i effaith yr anabledd fod yn ddigon drwg i'r sawl sydd â cherdyn orfod cael help ar bob siwrnai.

Bydd yr ail fath o gerdyn bws yn ymestyn y gostyngiad teithio am ddim i un unigolyn a fydd yn teithio gydag unigolyn anabl cymwys ar unrhyw siwrnai. Ni roddir y cardiau hyn i bobl dros 60 oed oni bai eu bod yn gymwys oherwydd eu hanabledd.

Prawf cymhwyster gofynnol:

- Tystiolaeth ar bapur i gadarnhau bod yr ymgeisydd yn derbyn Eifen Symudedd Cyfradd Uwch y Lwfans Byw i'r Anabl (LBA) e.e. Llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

Os nad ydych yn derbyn Eifen Symudedd Cyfradd Uwch y Lwfans Byw i'r Anabl, mae'n bosibl y byddwch yn dal yn gymwys i gael docyn cydymaith.

I fod yn gymwys, bydd angen tystiolaeth ar bapur arnom sy'n cadarnhau bod yr ymgeisydd eisoes yn ateb y meini prawf cyffredinol ar gyfer cerdyn bws person anabl ac UN o'r darnau canlynol o wybodaeth hefyd:

- Tystiolaeth ar bapur i gadarnhau bod yr ymgeisydd yn derbyn Eifen Symudedd Cyfradd Is y Lwfans Byw i'r Anabl (LBA) neu uwch
- Tystiolaeth ar bapur i gadarnhau bod yr ymgeisydd yn derbyn Eifen Gofal Cyfradd Canolig neu Uwch y Lwfans Byw i'r Anabl (LBA)
- Tystiolaeth ar bapur i gadarnhau bod yr ymgeisydd yn derbyn Lwfans Gweini

- Llythyr gan feddyg teulu, gweithiwr cymdeithasol, therapydd galwedigaethol, swyddog hawliau lles lleol neu arbenigwr meddygol arall yn cadarnhau y byddai'r ymgeisydd, trwy natur ei (h)anabledd, yn ei chael yn amhosibl defnyddio gwasanethau cludiant cyhoeddus heb gymorth cydymaith.

Rhaid i bob tystiolaeth ar bapur a llythyrau gael eu hysgrifennu ar bapur â phennawd gan y sefydliad perthnasol a'u llofnodi a'u dyddio gan y gweithiwr proffesiynol dan sylw.

Ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw gostau y bydd yn rhaid i'r ymgeisydd eu talu i gael y dogfennau a'u cyflwyno, gan gynnwys tystiolaeth ffotograffig a/neu feddygol, at ddibenion gwneud cais am gerdyn.

Mae gan Gyngor Sir y Fflint ddyletswydd i amddiffyn cronfeydd cyhoeddus ei weinyddwyr. Gall y Cyngor rannu gwybodaeth a ddarperir iddo, gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu cronfeydd cyhoeddus er mwyn atal a chanfod twyll.

Nodiadau

Ym mhob achos, rhaid i'r person anabl fodloni'r diffiniad cyffredinol o anabledd a nodir yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, h.y. mae'r anabledd yn barhaol neu mae wedi para neu mae'n debygol o bara o leiaf 12 mis ac mae'n cael effaith andwyol sylweddol ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol bob dydd.

Ym mhob achos, y sawl sy'n gwneud y cais sy'n gyfrifol am dalu costau unrhyw asesiad. Nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i ad-dalu costau ymarferwyr meddygol nac ymgeiswyr.

Cysylltiadau defnyddiol

Hawliau Lles Sir y Fflint - 01352 703561

Trafnidiaeth
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint CH7 6NF
Ffôn: 01352 702856
Ffacs: 01352 704540

Gwefan: www.siryfflint.gov.uk